



Adran Gwaith a Phensiynau

Ymgynghoriad cyhoeddus
Pensiynau gweithle gwell:
ymgyngghoriad ar godi tâl

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau 3

Crynodeb gweithredol 4

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Mae cofrestru awtomatig yn newid y ffordd y mae pobl yn y Deyrnas Unedig yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Ar ôl blwyddyn gyntaf ein diwygiadau pensiwn gweithle, roedd 1.7 miliwn o bobl wedi cofrestru mewn pensiwn a rydym yn amcangyfrif bod dros 90 y cant wedi aros yn eu cynllun. Dylai hyn roi hyder i bawb pan fydd y diwygiadau yn cael eu hymestyn i gynnwys cyflogwyr bach a chanolig eu maint, bydd y cyfraddau cyfranogiad yn aros yn uchel.

Ar yr un pryd, mae ein gwaith yn parhau i sicrhau bod y cynlluniau gweithle hynny a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig o ansawdd da: wedi'i rheoli'n dda, wedi'i weinyddu'n dda a gyda thaliadau clir ar gyfer aelodau, sy'n cynnig gwerth am arian. Ym mis Gorffennaf 2013, gwnaethom lansio alwad am dystiolaeth ar nifer o agweddau pwysig ar ansawdd cynllun – rheolaeth, gweinyddiaeth, buddsoddi a graddfa. Cawsom ymatebion manwl gan amrywiaeth eang o'n rhanddeiliaid. Byddwn yn cyflwyno cynigion yn y meysydd hyn maes o law.

Ym mis Mai, nodais fwriad y Llywodraeth i ymgynghori ymhellach ar y mater o godi tâl mewn cynlluniau gweithle. Fel y nodwyd gan y Swyddfa Masnach Teg yn ei hadroddiad diweddar Defined contribution workplace pension market study, mae gan ochr galw gwan mewn marchnad gymhleth y potensial i atal rhai aelodau rhag cael budd o gystadleuaeth pris. Er fy mod yn falch bod rhai cyflogwyr mawr sy'n sefydlu cynlluniau ar gyfer cofrestru awtomatig yn cael bargeinion da ar gyfer eu gweithwyr, mae perygl gwirioneddol y bydd cyflogwyr bach a chanolig eu maint yn ei chael hi'n anodd trafod yr un taliadau isel neu'n defnyddio cynlluniau etifeddiaeth sy'n codi tâl uchel. Pan fydd gwahaniaethau bach mewn taliadau yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i incymau ymddeol terfynol, mae hwn yn faes lle na allwn fforddio bod yn hunanfodlon.

Felly, drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn awyddus i asesu'r hyn y gellir ei wneud i wella tryloywder mewn taliadau cynllun pensiwn ac i edrych a oes rôl i'r Llywodraeth o ran gwella datgeliad. Rydym hefyd yn awyddus i brofi'r achos dros gapio taliadau cronfa diofyn ac wedi cynnig amrywiaeth o strwythurau i helpu i dynnu sylw at rai o'r materion amrywiol. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich barn ar y cwestiynau pwysig hyn.



Steve Webb, AS

Y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Crynodeb gweithredol

1. Mae cofrestru awtomatig yn trawsnewid ein diwylliant cynilo drwy annog a chefnogi miliynau o bobl sydd mewn perygl o ymddeoliad tlotach gymryd cyfrifoldeb personol a chynilo ar gyfer eu dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd hyn yn arwain at chwech i naw miliwn o bobl newydd gynilo neu'n cynilo fwy, gan gynhyrchu £11 biliwn ychwanegol y flwyddyn mewn cynilion pensiwn.
2. Mae'r arwyddion cychwynnol yn addawol gydag 1.7 miliwn o weithwyr wedi'u cofrestru, gydag eithrio allan yn llawer is na'r disgwyl.¹ Roedd ymchwil flaenorol yn awgrymu y byddai tua thraean o bobl yn eithrio allan, ond mae'r ymchwil diweddaraf gyda chyflogwyr mawr yn dangos bod tua 91 y cant o unigolion yn dewis parhau i gynilo.²
3. Mae'r Llywodraeth hon hefyd yn deddfu, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Senedd, er mwyn cyflwyno system o drosglwyddo'n awtomatig i helpu pobl cadw golwg ar gynilion eu pensiwn gweithle yn well a sicrhau eu bod yn elwa ar y manteision o gyfuno.
4. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu cofrestru'n awtomatig yn debygol o ymuno â'r gronfa ddiyfyn mewn cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cyflawni'r gwerth gorau posibl am arian. Hefyd, rhaid i bobl fod yn hyderus bod cymaint o'r arian â phosibl y maent yn eu cynilo yn mynd tuag at hybu eu hincwm ymddeol.
5. Mae effaith y taliadau a godwyd ar gynilion pensiwn pobl dros gydol eu hoes yn gallu bod yn sylweddol – gall amrywiadau sy'n ymddangos yn fach yn y taliadau arwain at wahaniaeth sylweddol mewn cynilion ymddeol terfynol pobl.

¹ <http://www.thepensionsregulator.gov.uk/docs/automatic-enrolment-monthly-registration-report-2013.pdf>

² <https://www.gov.uk/government/publications/automatic-enrolment-opt-out-rates-findings-from-research-with-large-employers>

Methiannau yn y farchnad mewn pensiynau

6. Ym mis Ionawr 2013, lansiodd y Swyddfa Masnach Teg astudiaeth farchnad ar gyfer cyfraniadau diffiniedig pensiynau gweithle. Ym mis Medi, daeth hwn i'r casgliad ni all ddibynnu ar gystadleuaeth yn unig i yrru gwerth am arian yn y farchnad pensiynau cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn o ganlyniad i ddau ffactor allweddol:
 - **Ochr prynwr y farchnad**, y mae'r Swyddfa Masnach Teg yn disgrifio fel un o'r gwannaf eu bod wedi dadansoddi yn y blynyddoedd diwethaf:³ mae aelodau'r cynllun yn dibynnu ar gyflogwyr i ddewis cynllun, ac ychydig o gynlluniau sydd ag ansawdd, rheolaeth annibynnol digon da i ddarparu archwiliad priodol.
 - **Cymhlethdod y cynnyrch**, sy'n creu anawsterau wrth wneud cymariaethau o gwmpas costau ac ansawdd oherwydd na fydd canlyniadau yn cael eu barnu am nifer o flynyddoedd.
7. Mae cofrestru awtomatig wedi cywiro rhai methiannau ar ochr y prynwr, ond nid yw'n mynd i'r afael â holl fethiannau'r farchnad sy'n bodoli. Mewn marchnadoedd eraill sy'n gweithredu'n dda, buddiolwr eithaf y cynnyrch sy'n gyfrifol am ei dewis. Mae'r trefniant mewn cofrestru awtomatig, fodd bynnag, yn enghraifft amlwg o broblem person-asiant: efallai na fydd y cyflogwr (yr asiant) bob amser yn gweithredu er lles y cyflogai (y person) wrth ddewis cynllun pensiwn. Gallai hyn arwain at gyflogai yn talu taliadau gormodol ar gyfer eu cynllun pensiwn gweithle.
8. Ceir tystiolaeth bod taliadau wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw taliadau isel yn realiti i bob cynilwyr pensiwn. Codwyd pryderon gan y Swyddfa Masnach Teg am gynlluniau 'etifeddiaeth' a werthwyd cyn 2001. Mae taliadau ar hyn o bryd tua 26 y cant yn uwch yn y cynlluniau hyn na'r rhai a werthwyd ar ôl 2001 a nododd y Swyddfa Masnach Teg bod cyfran sylweddol o'r cynlluniau hyn yn agored i gofrestru awtomatig.
9. Er bod cyflogwyr mawr wedi gallu sicrhau cynlluniau gyda thaliadau isel ar gyfer eu cyflogau, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y duedd hon yn parhau pan fydd cofrestru awtomatig yn dechrau ar gyfer busnesau bach a chanolig o fis Ebrill 2014.
10. Mae'r risg y gall unigolion wynebu costau uchel yn cynyddu ar gyfer y rhai a gyflogir gan fusnesau bach a chanolig, sydd â chynlluniau costau uwch fel arfer.⁴ Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall maint effeithio ar allu cyflogwr i yrru cystadleuaeth⁵; gall cyflogwyr llai bod heb yr adnoddau a'r ddealltwriaeth i gyflawni canlyniadau tebyg ar gyfer eu cyflogai. Mae'n hanfodol bod y cyflogwyr hyn yn glir am y mathau o lefelau codi tâl sy'n cynrychioli'r gwerth rhesymol ar gyfer eu cyflogai.
11. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried a allwn ddibynnu ar y diwydiant pensiynau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan y Swyddfa Masnach Teg, neu a fyddai angen i'r Llywodraeth ymyrryd mewn rhyw ffordd i ddiogelu pobl rhag cael eu cofrestru i gynlluniau sydd â thaliadau uchel.

³ Swyddfa Masnach Teg (OFT), 2013, *Defined contribution workplace pension market study*, OFT 1505, Y Goron.

⁴ Wood et al., 2013, *Pension Landscape and Charging: Quantitative and qualitative research with employers and pension providers*, Crown, p43.

⁵ Swyddfa Masnach Teg (OFT), 2013, *Defined contribution workplace pension market study*, OFT 1505, Y Goron, p114.

Ymyrraeth i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad

12. Rydym yn cyflwyno cynigion ar ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r materion hyn ac mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n unig ar y mater o daliadau pensiwn. Gwnaeth alwad am dystiolaeth ehangach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y mater o ansawdd cynllun gau i ymatebion ym mis Medi. Ystyriwyd y mater o reolaeth cynllun a amlygwyd gan y Swyddfa Masnach Teg ac rydym yn bwriadu darparu ymateb cynhwysfawr ar ein cynigion yn y meysydd hyn erbyn diwedd y flwyddyn.
13. Rydym yn croesawu sylwadau ar y cynigion canlynol.

Gwell datgelu gwybodaeth am gostau

14. Lanswyd nifer o fentrau diwydiant gwirfoddol sy'n ceisio gwella datgelu gwybodaeth am gostau i aelodau cynllun a chyflogwyr mewn ymdrech i leihau cymhlethdod y cynnyrch. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r mentrau hyn, ond mae ganddynt ddiddordeb mewn cael sylwadau o ran p'un ag oes angen cymryd camau pellach. Mae nifer o opsiynau posibl:
 - **Gorchymyn datgelu i aelodau** gan ehangu'r gofynion datgelu, i gynnwys gwybodaeth am gostau, ar gyfer yr holl ddarparwyr a rheolwyr cynlluniau mewn perthynas â'r wybodaeth sylfaenol am gynllun a'r datganiad buddion blynyddol. Byddai hyn yn sicrhau dull cyson ar draws holl aelodau'r cynllun.
 - **Safoni datgelu i gyflogwyr** er mwyn cyflwyno fframwaith safonol ar gyfer datgelu costau, a'r gwasanaethau a ddarperir ar yr adeg gwerthu trwy god ymddygiad ac ar sail barhaus drwy orchymyn gwybodaeth a ddarperir i gyflogwyr.
 - **Datgelu costau trafodion** – angen datgelu i aelodau, cyflogwyr, yn ogystal ag ymddiriedolwyr, a phwyllgorau rheolaeth llywodraethu annibynnol (fel yr argymhellwyd gan y Swyddfa Masnach Teg).

Camau i fynd i'r afael â thaliadau pensiwn uchel neu annheg

15. Mae dystiolaeth yn awgrymu efallai na fydd gwybodaeth yn unig yn gweithredu i gywiro'r problemau cymhelliant sy'n bodoli yn y farchnad hon a bydd rhai cyflogwyr yn eu cael hi'n anodd weithredu ar unrhyw wybodaeth a gânt. Felly, mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn clywed sylwadau ar y canlynol:
 - **Dylai cap ar daliadau cynllun pensiwn gael ei gyflwyno** ar gyfer yr holl aelodau, sy'n actif neu'n ohiriedig, am gronfeydd diofyn mewn cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig ar gyfer y cyflogwyr hynny sy'n cynnal o fis Ebrill 2014. Byddai'r cap hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys yr holl gyflogwyr sydd wedi cynnal o fis Hydref 2012 hyd at ac yn cynnwys mis Mawrth 2014 erbyn mis Ebrill 2015. Mae'r Llywodraeth yn ystyried tri opsiwn ar gyfer capio taliadau:
 - **Opsiwn 1: Cap tâl o 1 y cant ar gronfeydd dan reolaeth**, yn adlewyrchu'r cap pensiwn rhanddeiliaid presennol.⁶
 - **Opsiwn 2: Cap tâl is o 0.75 y cant ar gronfeydd dan reolaeth**, yn adlewyrchu'r lefelau codi tâl sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan nifer o gynlluniau.

⁶ Ar gyfer aelodau newydd o 6 Ebrill 2005, bydd y cap tâl yn 1.5 y cant y flwyddyn, gan ostwng i 1 y cant ar ôl 10 mlynedd o aelodaeth barhaus yn y cynllun.

- **Opsiwn 3: Cap dwy-haen ‘cydymffurfio neu esbonio’.** Byddai cap safonol o 0.75 y cant o gronfeydd dan reolaeth ar gyfer yr holl gronfeydd diofyn mewn cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig cymwys. Byddai cap uwch o 1 y cant ar gael i gyflogwyr a eglurodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau'r rheswm am gostau o fwy na 0.75 y cant.
- **Dylid gwahardd codi tâl gwahaniaethol rhwng aelodau actif a gohiriedig yn cael ei wahardd mewn cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig cymwys:** byddai hyn yn mynd i'r afael â chostyngiadau aelod actif ac atal ymarfer tebyg lle mae aelodau'r cynllun yn cael eu symud i bensiwn personol unigol gyda chostau uwch pan fyddant yn gadael cyflogaeth ac yn rhoi'r gorau i wneud cyfraniadau. Gallai'r gwaharddiad hwn effeithio ar gynlluniau sydd ar waith ar gyfer cyflogwyr sy'n cynnal o fis Ebrill 2014. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed sylwadau ynghylch trefniadau trosiannol ar gyfer delio â chynlluniau sydd yn eu lle cyn y dyddiad hwn.
- **Dylai'r gwaharddiad ar daliadau ymgynghori gael ei ymestyn o gynlluniau AE i bob cynllun Cyfraniadau Diffiniedig cymwys.** Ers mis Medi 2013, mae'r defnydd o daliadau ymgynghori mewn cynlluniau cofrestru awtomatig wedi cael ei wahardd yn dilyn adolygiad a ganfu eu bod yn peri risg sylweddol o niwed i aelodau'r cynllun. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn cynnwys aelodau o gynlluniau cymwys, fodd bynnag, ac felly efallai y byddwn yn edrych i'w ymestyn.⁷ Mae'n bwysig sicrhau diogelu'r holl gynilwyr, felly rydym yn ystyried sut i ymestyn y gwaharddiad taliadau ymgynghori.
- **Dylid gwahardd comisiynau ymgynghori a sefydlwyd cyn cyflwyno'r Adolygiad Dosbarthiad Manwerthu mewn cynlluniau cymwys.** Cododd y Swyddfa Masnach Teg bryderon y gallai cynlluniau sy'n cynnwys comisiynau ymgynghori barhau i gael eu defnyddio ar gyfer aelodau presennol, yn ogystal â chael eu defnyddio ar gyfer pobl a gofrestrir yn awtomatig yn y blynyddoedd i ddod. Gallai'r comisiynau hyn arwain at niwed i aelodau'r cynllun, gan eu bod yn creu rhwystrau wrth newid rhwng cynlluniau. Byddai diddordeb gennym mewn derbyn tystiolaeth ar yr effeithiau o unrhyw fesur o'r fath.

Cynlluniau etifeddiaeth

16. Nododd y Swyddfa Masnach Teg £30 biliwn o arian cynilwyr mewn cynlluniau contract a swp sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda thaliadau sydd mewn perygl o fod yn wael o ran gwerth am arian. Mewn ymateb, mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain, a rhai o'u haelodau sy'n darparu pensiynau Cyfraniadau Diffiniedig sy'n seiliedig ar gontract, wedi cytuno i gynnal archwiliad o gynlluniau 'mewn perygl' sy'n cwmpasu'r holl gynhyrchion pensiwn gweithle a werthwyd cyn 2001 a'r holl gynhyrchion pensiwn gweithle cyn 2001 sydd â chostau cyfartal tâl rheoli blynyddol (AMC) o 1 y cant. Y bwriad yw sefydlu'r ddau lefel o gostau, ac unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â hwy, er mwyn asesu a yw aelodau yn derbyn gwerth am arian.
17. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau hefyd yn gweithio ar gynigion i alluogi ymddiriedolwyr asesu gwerth am arian mewn cynlluniau bach sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth, ac i'r cynlluniau hynny ddarparu data ar yr asesiadau hynny.

⁷ Tra bod yr holl gynlluniau cofrestru awtomatig yn gynlluniau cymwys, dim ond rhai cynlluniau cymwys sy'n gynlluniau cofrestru awtomatig. Mae **cynllun cymwys** yn gynllun pensiwn cofrestredig treth, galwedigaethol neu bersonol sy'n bodloni'r isafswm gofynion ar gyfer cofrestru awtomatig. Gall cynlluniau o'r fath wedi bodoli cyn cyflwyno cofrestru awtomatig. Mae **cynllun cofrestru awtomatig** yn gynllun cymwys a sefydlwyd yn benodol ar gyfer cofrestru awtomatig a fydd yn derbyn unrhyw un sydd yn cofrestru'n awtomatig. Nid yw'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un fynegi dewis neu ddarparu gwybodaeth i ddod, neu aros, yn aelod gweithgar.

8 Crynodeb gweithredol

18. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Masnach Teg a'r Rheoleiddiwr Pensiynau wrth i'r archwiliad hwn symud yn ei flaen. Mae'r Ddeddf Pensiynau 2013-14 yn cynnwys pwerau i osod safonau ansawdd gofynnol ar gynlluniau pensiwn gweithle, gan gynnwys cyfyngu taliadau yn y cynlluniau hyn. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i ddelio â'r materion a nodwyd gan y Swyddfa Masnach Teg.

Y camau nesaf

19. Mae Pennod 5 yn nodi'r broses ymgynghori ac yn crynhoi'r cwestiynau ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 28 Tachwedd 2013. Byddwn yn dilyn yr ymgynghoriad hwn gyda chynigion y llywodraeth ar gostau ac ansawdd cynlluniau.

ISBN 978-1-78153-859-3
(h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau
Hydref 2013
www.dwp.gov.uk/cymraeg